


**Byddwch yn ffotograffydd** – Creu collage o luniau am '**gynefin**'. Ble wyt **TI'n** perthyn? Tynnwch luniau o'r dirwedd o'ch cwmpas sy'n gyfarwydd ac yn adnabyddadwy.

**Byddwch yn greadigol!**
**Byddwch yn wahanol!**
**Byddwch yn ddychmygus!**

**Byddwch yn arlunydd**– dewiswch un o'ch lluniau **'cynefin'**. Nawr ail-greu'r llun mewn arddull wahanol (pensil gyda chysgodiad/paent/cyfrifiaduredig/syniadau eich hun)

**Byddwch yn unigryw!**
**Byddwch yn unigolyn!**
**Byddwch yn goeth!**

**Byddwch yn gerddor** – dysgwch ein cân 'Pawb i ganu' a'i pherfformio gydag egni, angerdd a mwynhad. Ychwanegwch guriad cefndir gan ddefnyddio offerynnau taro. Ychwanegwch unawdydd a chytgan.

**Byddwch yn hyderus!**
**Byddwch yn ddeniadol!**
**Byddwch yn feiddgar!**

**Byddwch yn ddawnsiwr ac yn goreograffydd** – creu dilyniant dawns ar gyfer chytgan ‘Pawb i ganu’ Meddyliwch am ddawnsdrefn ar gyfer TikTok. Gweithiwch mewn grwpiau o 4 neu 5.

**Byddwch yn egnïol!!**
**Byddwch yn ysbrydoledig!**
**Byddwch yn feiddgar!**

**Byddwch yn actorion** – defnyddiwch y geiriau o’r gan ‘Pawb i ganu’ i greu siant gorawl (math o gerdd) ar gyfer grŵp bach. Ychwanegwch rai o’ch geiriau WOW. Ymarferwch eich siant gan dalu sylw i amseru.

**Byddwch yn glir!**
**Byddwch yn gydamseredig!**
**Byddwch yn uchelgeisiol!**

**Byddwch yn berson camera** – Ymarferion digidol o’r gan ‘Pawb i Ganu’. Dewiswch y darnau gorau a’u golygwch nhw gadai gilydd i greu cof gweledol o’r broses ddysgu. Rhowch gynnig ar wahanol onglau (ongl uchel/isel/agos i fyny/llydan)

**Byddwch yn wreiddiol!**
**Byddwch yn sensitif!**
**Byddwch yn ddyfeisgar!**

**Byddwch yn ohebydd** – archwiliwch mewn i’r hanes tu ôl Dydd Gŵyl Dewi. Pwy oedd e? Beth wnaeth e? Ble roedd e’n byw? ayyb. Cyflwynwch eich canfyddiadau mewn adroddiad newyddion. Gofynnwch I’r person camera i ffilmio chi

**Byddwch yn chwilfrydig!**
**Byddwch yn fentrus!**
**Byddwch yn wybodus!**

**Sefydlwch Teams gydag ysgolion mewn siroedd gwahanol a gofynnwch gwestiynau iddyn nhw am eu hardal, yna canwch gyda’ch gilydd.**

**COFIWCH**

Amdani, Blant Cymru